Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD**

**Amseru: Brys – cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2018/19**

**Teitl: Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau 2018/19**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r CHTh ar gyfer 2018/19 yn dilyn craffu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 19 Mawrth 2018.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 12 Mawrth 2018**

**DIBEN:** Craffu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio

**Amseru:** I'w weithredu'n syth

**Teitl:** Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.

Gwnaed un newid fel a ganlyn:

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar Gronfeydd Cyllid Wrth Gefn yr Heddlu ym mis Ionawr 2018 sy'n ceisio gwell tryloywder ar draws y gwasanaeth i arddangos cynlluniau clir ar gyfer defnydd. Mae'r fframwaith adrodd y ceir manylion amdano yn adran 12 yn ymdrin â'r gofynion hyn.

Wrth osod y praesept ar gyfer 2018/19 a ffurfio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018/19 – 2023/24, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi arddangos cynllun clir o ran defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi cyflenwi ei Gynllun Heddlu a Throseddu.

Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio pan fydd newidiadau'n cael eu cynnig.

**Argymhelliad:**

Y Cyd-bwyllgor Archwilio i ystyried y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau, sydd wedi'i ddiwygio. Y Comisiynydd i gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau diwygiedig yn syth.

# Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm Dros Newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 14/11/13 | Diane Jones | Trosglwyddo'r polisi i dempled newydd yr heddlu |
| 1.1 | 09/03/15 | Jayne Woods | Caniatáu'r CHTh i ddychwelyd cronfeydd wrth gefn i'r etholaeth |
| 1.2 | 14/03/16 | Jayne Woods | Caniatáu'r CHTh i osod cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn erbyn yr AAC (paragraff 8.3) |
| 1.3 | 22/03/16 | Jayne Woods | Dileu cyfeiriadau at lefelau cronfeydd wrth gefn uchaf y lleiaf fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio |
| 1.4 | 20/3/17 | Jayne Woods | Pennu cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg a chronfa wrth gefn cyfwng corfforaethol ar sail asesiad (paragraff 8.5) |
| 1.5 | 12/3/18 | Beverly Peatling | Newid er mwyn cyfeirio at ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd Cyllid Wrth Gefn yr Heddlu |

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

Enw: ................................

Adran: ................................

Llofnod: ................................

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei_holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/ Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 12/03/18 | Beverley Peatling |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Rhyddid Gwybodaeth**

| Addas i'w chyhoeddi | Ydyw/Nac ydyw | Dyddiad | Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 12/03/18 | Beverley Peatling |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |

**Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau**

1. **DATGANIAD POLISI**

1.1. **Cydnabyddir y gofyniad ar gyfer cronfeydd ariannol wrth gefn mewn statud. Mae'n ofynnol yn ôl Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 bod awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn ystyried lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd angen er mwyn bodloni gwariant amcangyfrifol yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllidebol.**

2. **NOD Y POLISI**

2.1. **Mae'r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol yn nodi y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) sefydlu polisi ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gall y Prif Gwnstabl (PG) eu defnyddio) a darpariaethau mewn ymgynghoriad â'r PG. Dylai hyn ystyried yr angen i sicrhau ariannu cyfredol gweithgareddau plismona a'r gofyniad i fodloni gweithrediadau plismona eithriadol neu anarferol.**

2.2. **Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli ariannol. Maen nhw'n helpu CHTh a'r PG i ymdopi â phwysau ariannol nas rhagwelir a chynllunio ar gyfer ymrwymiadau gwario yn y dyfodol.**

3. **PERTHNASEDD**

3.1. **Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer y CHTh, PG a phob swyddog heddlu ac aelod o staff yr heddlu sydd â chyfrifoldeb dros reoli cyllideb.**

4. **DIFFINIADAU**

4.1. Mae cronfeydd wrth gefn a balansau'n wahanol i ddarpariaethau o safbwynt cyfrifyddu. Yn achos cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (yn hytrach na chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy) a darpariaethau, dylai balansau arian parod ateb y ddau swm ar y fantolen, heblaw bod benthyca mewnol wedi digwydd.

4.2. **Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** – sef balansau sy'n cael eu dal yn gyffredinol ar gyfer tri diben penodol ac sy'n cael eu categoreiddio fel cronfeydd cyffredinol wrth gefn neu gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:

- Balans gweithio i helpu i lyfnhau effaith llifoedd arian anwastad – cronfeydd cyffredinol wrth gefn;

- Cynllun wrth gefn i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl – cronfeydd cyffredinol wrth gefn;
- Ffordd o adeiladu cyllid i fodloni gofynion sy'n hysbys neu ofynion a ragwelir – cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

4.3. **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy** – nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol ac maen nhw'n cael eu cadw ar gyfer dibenion cyfrifyddu.

4.4. **Darpariaethau** – mae eu hangen ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau swm neu amseru ansicr sydd wedi'u codi.

## 5. TREFNIADAU LLYWODRAETHU

5.1. Y gofynion llywodraethu lleiaf mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau yw:

- Mae gan y CHTh bolisi cadarn ar lefel a natur cronfeydd wrth gefn a balansau sydd angen sydd wedi'i ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio;
- Dylid adlewyrchu lefelau'r cronfeydd wrth gefn a balansau yn y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC);
- Mae'r CHTh yn monitro ac yn cynnal ei lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau o fewn yr amrediad a bennwyd gan ei bolisi cytûn, gyda chyngor y PSA (CHTh) a fydd yn sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio;
- Mae'r CHTh yn cadw cronfeydd wrth gefn digonol fel y gellir bodloni pwysau a arweinir gan alw annisgwyl ar gyllidebau heb effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol;
- Mae polisi'r CHTh ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau'n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau, ac mae'n cael ei adrodd yn briodol a chlir adeg gosod y gyllideb a'r praesept. Mae polisi'r CHTh ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau'n cael ei adolygu'n gyson a'i reoli er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn cefnogi'r CHTh o ran cyflawni ei amcanion hirdymor;
- Os eir dros y lefelau targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, mae costau cyfle cynnal y lefelau hyn wedi'i sefydlu, o'u cymharu â'r elw a gasglwyd.

5.2. Dylai'r Cynllun Caniatâd a Rheoliadau Ariannol y cytunwyd arnynt yn Lleol:

- Gynnwys manylion llawn am sut y bydd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau'n gweithredu'n lleol;
- Sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cynnwys swm realistig o gronfeydd wrth gefn gweithredol sydd ar gael i'r PG ar gyfer

blaenoriaethau gweithredol heb fod angen ar gyfer cymeradwyaeth ychwanegol; a

- Lle mae hynny'n briodol, darparu ar gyfer cario cyllidebau ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall.

6. **<u>CYFRIFOLDEBAU STATUDOL</u>**

6.1. Mae "Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl" yn nodi'r pum egwyddor sy'n diffinio'r ymddygiadau a'r gweithgareddau craidd sy'n perthyn i rôl y PSA a'r trefniadau sefydliadol sydd angen i'w cefnogi.

6.2. Ar gyfer pob egwyddor, mae'r Datganiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu sydd angen o fewn sefydliad i sicrhau bod PSA yn medru gweithredu'n effeithiol a chyflawni eu dyletswyddau craidd.

6.3. Y trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau ac sy'n gyfrifoldeb i'r PSA (CHTh) yw:

- Sicrhau y darperir cyngor ar y lefelau o gronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arfer da;
- Adrodd pan mae'r gyllideb yn cael ei hystyried a'r praesept yn cael ei osod, ar gadernid yr amcangyfrifon cyllid a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol, fel sy'n ofynnol yn ôl a25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.

6.4. Dylid cyflawni'r ddau mewn ymgynghoriad â'r PSA (PG).

6.5. Yn ogystal, mae amrediad o amddiffyniadau mewn grym sy'n milwrio yn erbyn y CHTh yn gor-ymrwymo ei hun yn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y gofyniad cyllidebol cytbwys;
- Pwerau Adran 114 Deddf Llywodraeth Leol 1988 prif swyddogion ariannol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r prif swyddog ariannol adrodd pa un ai a oes gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys, neu os yw hyn yn debygol; ac
- Mae cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu ac adrodd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygiad o'r lefel o gronfeydd wrth gefn gan ystyried ei wybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr archwilwyr yw pennu lefel isaf neu optimaidd cronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

7. **ASESU'R LEFEL BRIODOL O GRONFEYDD WRTH GEFN**

7.1. Mae'r CHTh yn gyfrifol am sicrhau bod y lefel o gronfeydd wrth gefn yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol, ac mae'n atebol i drethdalwyr am y penderfyniadau a wneir. Mae gan y PSA (CHTh) ddyletswydd i roi'r cyngor sydd angen arno i'r CHTh fel ei fod yn medru gwneud penderfyniadau da.

7.2. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal fel mater o gallineb. Maen nhw'n galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl, ac felly helpu i'w ddiogelu rhag gorwario'r gyllideb flynyddol, pe bai digwyddiadau o'r fath yn digwydd. Gellir cynnal cronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion penodol hefyd pan mae'n debygol y bydd gofyniad gwario'n digwydd yn y dyfodol.

7.3. Mae derbyniad y cyhoedd o'r praesept yn rhannol ddibynnol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a doeth o unrhyw or-ariannu sy'n cael ei gadw fel cronfa wrth gefn. I'r gwrthwyneb, pan mae gwariant annisgwyl yn codi, mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl y byddai gan y sefydliad ddigon o adnoddau i fodloni'r gost heb fod angen gorwario.

7.4. Er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd wrth gefn, dylai'r PSA (CHTh) gynnwys asesiad diweddar o'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r sefydliad.

7.5. Mae gosod lefel y cronfeydd wrth gefn yn un o sawl penderfyniad cysylltiedig y mae'n rhaid eu cymryd wrth baratoi'r CATC a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol benodol.

7.6. Dylai asesu'r lefel ofynnol o ran cronfeydd wrth gefn gynnwys cyflawni dadansoddiad o'r fantolen ar sail flynyddol a bwrw eitemau allweddol y fantolen ymlaen. Mae hyn yn cynnwys darogan lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau dros gyfnod o dair blynedd er mwyn cwmpasu'r CATC a'r rhaglen gyfalaf.

7.7. Dylai strategaeth cronfeydd wrth gefn a balansau effeithiol ystyried ymagwedd y sefydliad tuag at reoli trysorlys, cynlluniau gwariant cyfalaf a'r angen ar gyfer benthyca allanol, yn erbyn y defnydd o falansau a chronfeydd wrth gefn.

7.8. Mae canllawiau CIPFA yn awgrymu y dylid ystyried y ffactorau canlynol yn ogystal â gofynion llif arian:

| Tybiaethau Cyllideb | Sefyllfa Ariannol a Rheoli |
|---|---|
| Triniaeth chwyddiant a chyfraddau llog | Sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad (lefel benthyca, dyled sy'n ddyledus, cyfraddau casglu treth gyngor ayyb) |
| Amcangyfrifon lefel ac | Hanes y sefydliad o ran rheoli |

| | |
|---|---|
| amseru derbyniadau cyfalaf | cyllidebol ac ariannol, gan gynnwys cadernid cynlluniau tymor canolig |
| Triniaeth pwysau a arweinir gan alw | Gallu'r sefydliad i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn |
| Triniaeth arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant | Cryfder gwybodaeth ariannol a threfniadau adrodd |
| Y peryglon ariannol cynhenid mewn unrhyw bartneriaethau ariannu newydd arwyddocaol, trefniadau allanoli mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | Gweithdrefnau diwedd blwyddyn a hawl trosglwyddo arian y sefydliad mewn perthynas â gorwario/tanwario ar lefel sefydliadol ac adrannol |
| Argaeledd cyllid arall i ymdrin â hapddigwyddiadau mawr a digonolrwydd darpariaethau | Digonolrwydd trefniadau yswiriant y sefydliad er mwyn darparu ar gyfer peryglon mawr nas rhagwelwyd |

8. **CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD**

8.1. Mae'r Cod cyfrifyddu cyfredol yn mynnu bod diben, defnydd a sail trafodion cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu nodi'n glir. Bydd adolygiad o ddiben a lefel cronfeydd wrth gefn yn cael ei gynnal yn flynyddol yn ystod y broses o osod y gyllideb a bydd manylion am y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnwys yn y nodyn perthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.

8.2. Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu categoreiddio'n gronfeydd wrth gefn "defnyddiadwy" neu'n gronfeydd wrth gefn "annefnyddiadwy". Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy er mwyn ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy'n adnoddau a gefnogir, ac felly nid oes ganddynt falansau ariannol cyfatebol.

8.3. Polisi CHTh yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pryniannau achlysurol i leihau'r effaith ar y praesept treth gyngor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC), os yn briodol, a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r Ddarpariaeth Gyllideb Leiaf a godir ar y cyfrif refeniw yn flynyddol.

8.4. Gan hynny, bydd lefel darged y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd bob tro'n gyfiawnadwy ac yn cael ei monitro er mwyn sicrhau nad yw lefelau cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn rhy uchel neu'n rhy isel. Os yw'r CHTh yn pennu bod lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y mae'n eu dal uwchlaw a thu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol ofynnol ac wedi'u pennu'n benodol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gall y CHTh ddychwelyd y cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni

drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu buddsoddiadau untro yn gyntaf yn unol â darpariaeth 13.3.

8.5. Bydd y rheswm y mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n cael eu dal yn cael eu dosbarthu fel a ganlyn:

| **Manylyn** | **Rheswm** | **Cyfran y Gyllideb Gwariant Refeniw Net** |
|---|---|---|
| Clustnodwyd - penodol | Ar gyfer diben penodol | Seiliedig ar asesiad |
| Cynllunio Ariannol Tymor Canolig | Er mwyn cynllunio cyllidau'n strategol e.e. cronfeydd wrth gefn er mwyn gohirio benthyca allanol i sicrhau arbedion ariannol | Seiliedig ar asesiad |
| Gwariant Cyfalaf | Er mwyn cefnogi'r rhaglen gyfalaf | Seiliedig ar asesiad |
| Cyfwng corfforaethol | Er mwyn diogelu yn erbyn gorwario neu fethu â chyflwyno arbedion ar amser | Seiliedig ar asesiad |
| Cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg | - Wedi'u dal er mwyn darparu ar gyfer risg ariannol tymor byr<br>- Wedi'u dal ar gyfer cynlluniau gwario risgiau tymor canolig neu hirdymor | Seiliedig ar asesiad |
| Incwm a glustnodir | Gellir ond eu defnyddio ar gyfer dibenion penodol | Cario incwm a glustnodir sydd heb ei wario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf yn unol â'r Cod |

8.6. Mae cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Cronfa Ailbrisiad** – Mae'r Gronfa Ailbrisiad yn cynnwys yr enillion sy'n deillio o gynyddiadau yng ngwerth Eiddo, Offer, Peiriannau ac Asedau Anniriaethol. Mae'r balans yn cael ei leihau pan mae asedau ag enillion cronedig yn cael eu hailbrisio i lawr neu'n ddiffygiol, wedi'u treulio drwy ddibrisiad, neu wedi'u gwaredu a'r enillion yn cael eu cyflawni;
- **Cyfrif Addasiad Cyfalaf –** Mae'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif am dreulio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, llunio neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol;
- **Cyfrif Absenoldebau Cronedig –** Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar y Balans Cronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar y Balans Cronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu ohono;
- **Cronfa Bensiynau –** Mae'r Gronfa Bensiynau'n amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif am fanteision ôl-cyflogaeth ac ar gyfer ariannu manteision yn unol â darpariaethau statudol.

## 9. CRONFA WRTH GEFN GYFFREDINOL

9.1. Er nad yw CIPFA'n nodi lefel cronfa wrth gefn gyffredinol isaf neu optimaidd, ei ganllaw cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli "adnoddau a roddwyd naill ochr ar gyfer dibenion megis rheoli llif arian a hapddigwyddiadau cyffredinol."

9.2. Mae gosod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig o ran ffurfio'r CATC a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried tybiaethau ariannol allweddol sy'n tanategu'r gyllideb ochr yn ochr ag ystyriaeth o drefniadau rheoli ariannol y sefydliad.

## 10. CRONFEYDD WRTH GEFN YR HEDDLU

10.1. Mae'n rhaid i'r CHTh roi ystyriaeth ddyledus i'r angen ar gyfer sicrhau ariannu parhaus gweithgareddau plismona (gan

gynnwys y gofyniad i fodloni gweithrediadau eithriadol neu anarferol). Dylai'r gyllideb flynyddol fod yn swm realistig o gronfeydd wrth gefn gweithredol sydd ar gael i'r PG ar gyfer blaenoriaethau gweithredol heb fod angen ar gyfer cymeradwyaeth ychwanegol.

10.2. Bydd y PG yn sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigon i ariannu anghenion gweithredol rhagweladwy drwy gyflwyno achos busnes fel rhan o'r CATC a'r broses o osod y gyllideb flynyddol i'r PSA (CHTh) a'r CHTh ar gyfer eitemau gwariant untro i'w hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

10.3. Dylai'r achos busnes gynnwys ystyriaeth o'r lefel o gronfeydd wrth gefn sy'n ofynnol ar gyfer ymchwiliadau digwyddiadau mawr a gofynion gweithredol eraill, swm y cronfeydd wrth gefn sydd angen a'r amserlenni ar gyfer eu defnyddio.

10.4. Bydd cymeradwyo achosion busnes ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn destun terfynau awdurdodi a nodir yn y Rheoliadau Ariannol, i gynorthwyo â phenderfyniadau gweithredol dydd i ddydd.

11. **<u>CRONFEYDD WRTH GEFN CHTh</u>**

11.1. Bydd pob cronfa wrth gefn yn cael ei dal gan y CHTh a'i rheoli er mwyn cydbwyso blaenoriaethau gwario ac ariannu a rheoli risgiau. Dylid sefydlu hyn fel rhan o'r broses gynllunio ariannol tymor canolig.

## 12. FFRAMWAITH ADRODD

12.1. Mae gan y ddyletswydd ymddiriedol i drethdalwyr lleol a rhaid iddo fod yn fodlon bod y penderfyniadau a gymerir ar falansau a chronfeydd wrth gefn yn cynrychioli stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

12.2. Hysbysir lefel cronfeydd wrth gefn a'r defnydd ohonynt gan gyngor a barn y PSA (CHTh). Er mwyn galluogi'r CHTh i ddod i benderfyniad, bydd y PSA (CHTh) yn adrodd y ffactorau a ddylanwadodd ar ei farn ac yn sicrhau bod cyngor a roddir yn cael ei gofnodi'n ffurfiol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys datganiad:

- a fydd yn manylu lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol ac unrhyw symudiadau ar y gronfa;
- ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac amcangyfrif o'r darpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol i ddod a'r CATC;
- sut y mae cronfeydd wrth gefn wedi newid dros amser, gan gymharu â'r rhai sy'n cael eu dal gan sefydliadau tebyg;

- ar adolygiad blynyddol cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gan gynnwys amcangyfrif o'r balansau diwedd flwyddyn. Bydd y datganiad yn rhestri'r cronfeydd wrth gefn amrywiol, eu diben, pryd y byddant yn cael eu defnyddio a'r lefel briodol; ac
- Asesiad o'r perygl y bydd digwyddiadau mawr (gweithredol ac anweithredol) yn digwydd sy'n cael ei adlewyrchu yn y gyllideb a'r CATC.

12.3. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddarparu'n flynyddol yn seiliedig ar amcangyfrifon i'r CHTh cyn cymeradwyo'r praesept treth gyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddiweddaru â'r sefyllfa diwedd flwyddyn ar gyfer y CHTh cyn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

12.4. Bydd adroddiad tymor canolig yn cael ei roi i'r CHTh ar gyfer dibenion monitro. Bydd hyn yn nodi unrhyw newidiadau o ran statws peryglon y mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dal er mwyn lliniaru.

12.5. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar Gronfeydd Cyllid Wrth Gefn yr Heddlu ym mis Ionawr 2018 sy'n ceisio gwell tryloywder ar draws y gwasanaeth i arddangos cynlluniau clir o ran defnydd. Mae'r fframwaith adrodd y sonnir amdano uchod yn ymdrin â'r gofynion hyn.

## 13. "COST CYFLE" DAL CRONFEYDD WRTH GEFN

13.1. Mae'r archwilydd allanol yn annog datganiad o fewn y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn ar y cost cyfle o ddal cronfeydd wrth gefn. Term theori economaidd yw "Cost Cyfle" sy'n golygu os byddwch chi'n gwario rhywbeth ar un peth, ni allwch ei wario ar rywbeth arall.

13.2. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer cronfeydd wrth gefn, ac mae'n golygu os bydd cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal yn rhy uchel, yna mae sefydliad yn ymwrthod â'r cyfle i leihau'r Dreth Gyngor. Nid yw'r theori hwn yn cynnig ei hun yn ymarferol lle mae modd capio lefelau cynnydd o ran y dreth gyngor.

13.3. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, mae'r CHTh yn ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau untro. Ystyrir bod hyn yn ddefnydd mwy cynaliadwy o gronfeydd wrth gefn 'gormodol' ac mae'n lleihau'r effaith ar y praesept treth gyngor.

13.4. Mae'n hollbwysig bod penderfyniadau'r CHTh ynghylch cronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfathrebu'n glir i drethdalwyr lleol er mwyn hyrwyddo atebolrwydd.

**14. DARPARIAETHAU**

14.1. Mae angen darpariaethau ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau o ran amseru ansicr neu'r swm a godwyd. Mae angen cydnabod darpariaethau:

- **pan mae gan yr awdurdod lleol rwymedigaeth gyfredol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol; ac**
- **mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo manteision economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth; a**
- **gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.**

14.2 Ystyrir bod trosglwyddo manteision economaidd neu ddigwyddiad arall yn debygol os yw'r digwyddiad yn debygol o beidio â digwydd. Os nad yw'r amodau hyn yn cael eu bodloni, ni ddylid cydnabod darpariaeth.

14.3 Bydd y gofyniad ar gyfer darpariaethau'n cael eu hasesu a'u hadrodd yr un pryd â'r cronfeydd wrth gefn.

**15 POLISÏAU, PROTOCOLAU, ARFERION NEU GYTUNDEBAU GWASANAETH CYSYLLTEIDIG**

15.2 Mewnol:

- **Cynllun Llywodraethu – Rheoliadau Ariannol;**
- **Gweithdrefnau Rheoli Ariannol (safle mewnrwyd yr adran gyllid).**

15.3 Allanol:

- **Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol Mewn Llywodraeth Leol.**
- **Swyddfa Gartref – Canllawiau ar Gronfeydd Cyllid Wrth Gefn yr Heddlu**

**16 MONITRO**

16.2 Bydd y fframwaith adrodd yn cynnig sicrwydd bod y polisi'n cael ei ddilyn a'i fonitro ar gyfer ei effeithiolrwydd ac aneffeithlonrwydd a nodwyd.

**17 ADOLYGU**

17.2 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol gan y Pennaeth Llywodraethu Ariannol ar ran y CHTh er mwyn

sicrhau ei fod yn parhau'n ddiweddar ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol neu unrhyw ddeddfwriaethau neu ganllawiau eraill.

## 18 PWY I GYSYLLTU Â NHW YNGHYLCH Y POLISI HWN

Beverley Peatling Prif Swyddog Ariannol

Beverley.peatling@dyfed-powys.pnn.police.uk

Rhif estyniad ffôn 23296